

GRIFFITH, SIDNEY ('Madam Griffith '; bu farw 1752)

Enw: Sidney Griffith
Ffugenw: Madam Griffith
Dyddiad marw: 1752
Priod: William Griffith
Plentyn: John Griffith
Rhiant: Jane Wynne (née Griffith)
Rhiant: Cadwaladr Wynne
Rhyw: Benyw
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Merch [Cadwaladr Wyn](#) o'r Foelas yn Ysbyty Ifan ([J. E. Griffith](#), *Pedigrees*, 326) - galwyd hi ar ôl ei nain Sidney Thelwall o Blas-y-ward; priododd (tua 1741? - ganwyd ei mab yn 1742) â [William Griffith](#) o Gefnamwlch ([J. E. Griffith](#), op. cit., 169), meddwyn anhygar y methai hi ddygymod ag ef.

Daeth at grefydd yn 1746 dan bregeth [Peter Williams](#). Cyfarfu gyntaf â [Howel Harris](#) ddechrau Hydref 1748, yn Ll n. Ddechrau 1749 yr oedd hi yn Llangeitho gyda [Daniel Rowland](#), a aeth â hi i'r sasiwn yn Errwd (1 Chwefror); oddi yno, talodd ymweliad â Threfeca. Pan oedd [Harris](#) yn dychwelyd o daith yn Ll n (19-20 Gorffennaf), cyd-deithiodd gydag ef i sasiwn Llangeitho (26 Gorffennaf), a hebryngodd yntau hi mor bell â Llanfair-ym-Muellt ar ei ffordd adref. Y mae'n amlwg i [Harris](#) syrthio'n ddwfn dan ei dylanwad ar y teithiau hyn - dylid nodi, fodd bynnag, mai gyda [Rowland](#) yr ochrai hi ar y pryd yn y materion yr anghytunai [Rowland](#) a [Harris](#) arnynt, megis gwrthwynebiad [Rowland](#) i [Griffith Jones](#), Llanddowror, ac i [James Beaumont](#). Pan ddychwelodd [Harris](#) o Lundain i Drefeca (23 Medi), wele 'Madam Griffith' yno'n ei aros, gyda'r newydd fod ei phriod yn fethdalwr, a'i fod wedi ei churo a'i throi allan o'r ty am wrthod bodloni i aberthu ei gwaddol iddo. Dymunai [Harris](#) iddi aros yn Nhrefeca, ond erbyn hynny yr oedd Mrs. George Whitefield wedi gwenwyno meddwl Mrs. Harris tuag ati, a bu'n rhaid iddi gychwyn tua'r gogledd; yr oedd tafodau maleisus ymhlith y cynghorwyr Methodistiaidd hefyd ar waith, a heblaw hynny yr oedd hithau'n honni galluoedd proffwydoliaethol ac yn ymyrraeth yn nhrefniadau'r mudiad Methodistiaidd. Cymerwyd hi'n wael ar ei thaith, a bu'n rhaid i [Harris](#) a'i wraig fynd i Llanidloes i'w chyrchu'n ôl i Drefeca. Ar ddiwedd y flwyddyn, achosodd y sgandal rwyg rhwng [Harris](#) a Whitefield. Cynyddodd yr anghydfod yn 1750; ac er nad oedd [Rowland](#) na [William Williams](#) ([Gomer M. Roberts](#), *Y Per Ganiedydd*, 126) yn rhoi unrhyw gred i'r enyniadau a ddygid yn erbyn [Harris](#) a 'Madam Griffith,' yr oedd y cynghorwyr (asgwrn cefn plaid [Rowland](#)) yn codi melin a phandy arnynt; yn y cyfamser, yr oedd y ddwy wraig yn cydfyw'n ddigon heddychol yn Nhrefeca - yn wir, yr oedd rhai hyd yn oed o'r cynghorwyr, gwyr digon llym a Phiwritanaidd, â barn uchel iawn am gymeriad y 'broffwydes.' Edrychai [Harris](#) arni fel 'llygad corff Crist' (bu iddi, gyda llaw, fwy nag un rhagflaenydd yn y cymeriad hwn, yng ngolwg [Harris](#)), ac yr oedd yn gwrando'n ddibetrus ar ei chynghorion, ac yn mynd â hi o gwmpas y wlad fel math o arch y cyfamod. Ceisiodd [Morgan John Lewis](#) (bu yntau gynt yn 'llygad') ymlw ag ef, ond gwrthododd [Harris](#) wrando (Mai 1750); ofer hefyd fu ymgais 'Madam Griffith' ei hunan (Mehefin) i gyfyngu rhwng [Harris](#) a [Rowland](#) (a [Howell Davies](#)). Erbyn mis Medi, yr oedd amgylchiadau Mrs. Griffith yn faich ar [Harris](#) - ni chynhaliai ei gwr mohoni, a bu'n rhaid i [Harris](#) dalu drosti, gofalu am addysg ei mab, a mynd yn feichiau drosti.

Erbyn dechrau 1752, yr oedd ei hiechyd wedi gwaethygu'n ddirfawr, ac aeth Mrs. Harris â hi i Lundain a'i rhoi yng ngofal ei brawd [Watkin Wyn](#); bu hi farw yno 31 Mai 1752. Yr oedd wedi rhoi ymrwymiad i [Harris](#) am £400 i'w ddigolledu am ei dreuliau a'i ymrwymadau ar ei rhan; ond ni allai'r ysgutor (Wyn) gyfarfod â'r gofynion (yr oedd [William Griffith](#) wedi marw ar 11 Chwefror) - dylid er hynny gofio ei bod hi gynt wedi rhoi swm mawr (efallai £900) i [Harris](#) at sefydlu Trefeca ([M. H. Jones](#), *The Trevecka Letters*, 188). Heb ymboeni i wrthbrofi'r cyhuddiadau eithafol a ddygwyd yn erbyn [Harris](#) ynglyn â'i berthynas â 'Madam Griffith,' eto ni ellir osgoi barnu iddo ddangos cryn ffolineb, ac y mae ei ddyddyfrau ef ei hunan yn y blynyddoedd hyn yn cynnwys llawer ymadrodd y gellid darllen ystyr anffafriol i mewn iddynt. Y mae'n amlwg i'r peth wneud drwg i [Harris](#) ym marn y wlad (noder, e.e. ar ddamwain, *Cymm.*, xlv, 54, a llythyr Noah Jones at [Thomas Morgan](#) 'Henllan' yn 1750, N.L.W. MS. 5459 - a dywed [Richard Bennett](#) fod 'pobl tua Chaerfyrddin yn gwneud gogan-gerddi amdano'), a'i fod yn un (ond yn un yn unig) o achosion yr ymraniad ymysg y Methodistiaid o 1750 ymlaen. Eithr barn bwyllog [Bennett](#), a weithiodd drwy ddyddyfrau a gohebiaeth [Harris](#) yn y blynyddoedd hyn, oedd nad oedd ynddo ond 'arwyddion o feddwl wedi colli ei fantoliad, ac arno angen dybryd am seibiant i adfeddiannu ei bwyl'; a thrachefn, 'dirywiad meddyliol, yn hytrach na moesol, a'i harweiniodd i'r annoethineb amryfus hwn.'

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

R. Bennett, *Methodistiaeth Trefaldwyn Uchaf, 1738–1852* (1929), 153-238, passim
a ffynonellau eraill ar wasgar

Darllen Pellach

Erthygl Wikipedia: [Sidney Griffith](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q7509095](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

